Sain Tathan

Cartref i'r Academi Dechnegol Amddiffyn a'r Parc Awyrofod

Cynllun Drafft – Gorffennaf 2008

Hyfforddiant Awyr Agored a Storfa

Bydd yr ardal hon i'r Gogledd o'r safle yn cael ei defnyddio i ddarparu hyfforddiant awyr agored ar gyfer yr Academi Dechnegol Amddiffyn. Fe fydd hefyd yn darparu storfa ar gyfer peth o'r offer hyfforddi newydd a fydd ei angen, yn ogystal â'r cyfarpar i gynnal y stad, a cherbydau.

Canolfan Ynni (CY)

Er mwyn diwallu anghenion ynni mewn modd cynaliadwy, bydd y datblygiad yn cynnwys Canolfan Ynni sy'n ymgorffori generadur biomas a fyddai'n cael ei danio'n rhannol gan naddion pren. Bydd hyn yn gostwng allyriadau carbon yr Academi Dechnegol o rhwng 30 a 60 y cant bob blwyddyn.

Academi Dechnegol Amddiffyn

Rhoddir ystyriaeth ofalus iawn i olwg yr Academi Dechnegol Amddiffyn drwy greu adeiladau a thirwedd nodedig er mwyn darparu datblygiad sydd â chymeriad. Awyrendy DARA gynt fydd canolbwynt yr Academi Dechnegol, gan sicrhau bod yr adeilad newydd hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio'n briodol.

Bydd y myfyrwyr sy'n mynychu'r Academi Dechnegol yn gyfuniad o unigolion proffesiynol ifanc a phrofiadol sydd wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau mewn nifer o ddisgyblaethau arbenigol. Felly, bydd nifer ohonynt yn cael eu lleoli yn Sain Tathan yn y tymor hir, ac yn dod i'w ystyried yn gartref.

Academi Dechnegol Amddiffyn

Bydd yr Academi Dechnegol Amddiffyn o safon ryngwladol ac yn sicrhau bod personél y fyddin yn y DU yn parhau i dderbyn yr hyfforddiant gorau sydd ar gael. Bydd yr Academi Dechnegol yn darparu hyfforddiant ar gyfer hyd at 4,500 o fyfyrwyr ar unrhyw un adeg, gan arbenigo mewn peirianneg awyrenneg ac electro-fecanyddol, a chyfathrebiadau/disgyblaethau TG.

Byddai'r Academi Dechnegol yn creu nifer o swyddi newydd yn yr ardal. Byddai'r fath swyddi, ynghyd â phresenoldeb y myfyrwyr, yn cyfrannu miliynau o bunnoedd i'r economi lleol yn flynyddol.

Cyfleusterau Chwaraeon

Darperir amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon gan gynnwys meysydd, cyrtiau tenis a phwll nofio.

Rhagwelir y bydd nifer o'r cyfleusterau hamdden hyn ar gael i'r cyhoedd ar adegau penodol.

Mynediad

Mynediad newydd o'r B4265 i gysylltu â Ffordd Eglwys Brewis.

Darpar Lety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog (LliD)

Bydd hyd at 550 o dai yn cael eu hadeiladu i ddarparu llety i bersonél yn ystod eu harhosiad. Mae nifer o safleoedd yn cael eu hystyried.

Darpar Lety i Deuluoedd y Lluoedd Arfog (LliD)

Bydd hyd at 550 o dai yn cael eu hadeiladu i ddarparu llety i bersonél yn ystod eu harhosiad. Mae nifer o safleoedd yn cael eu hystyried.

Gwersyll y Gorllewin

Bydd Gwersyll y Gorllewin yn parhau i weithredu yn yr un ffordd ag y mae heddiw drwy ddarparu llety a chyfleusterau ategol i Swyddogion, Uwch Swyddogion Heb Gomisiwn a milwyr lleoladwy o'r Llynges Frenhinol, Y Fyddin, a'r Llu Awyr Brenhinol.

Parc Busnes Awyrofod

Byddai'r Parc Busnes Awyrofod yn denu busnesau sy'n ymwneud â gwaith milwrol a sifil a byddai'n cael ei leoli mewn awyrendy mawr a fydd yn cynnwys cyfuniad o adeiladau newydd ac awyrendai presennol wedi eu hailddatblygu.

Bydd y Parc Busnes Awyrofod yn ategu at yr Academi Dechnegol yn ogystal â dyfod yn ganolfan rhagoriaeth busnes yn ei hawl ei hun gan adeiladu ar arbenigedd presennol De Cymru yn y sector awyrofod. Byddai'r Parc Busnes Awyrofod yn creu hyd at 2000 o swyddi newydd yn y rhanbarth.

Mynediad

Bydd mynedfeydd newydd a gwelliannau i Ffordd Eglwys Brewis, Cyffordd Sain Tathan, y B4265 yn Silstwn/Yr Hen Felin a chylchfan Waycock Cross yn helpu i sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn medru ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y traffig adeg y cyfnodau prysur. Bydd ceisiadau cynllunio yn cynnwys cynigion ar gyfer mesurau i ailgyfeirio a lliniaru traffig y contractwyr a geir yn sgil y cynigion datblygu. Anghymeradwyir mynediad drwy bentref Sain Tathan a bydd y mwyafrif o'r traffig yn defnyddio'r fynedfa newydd i'r safle. Cyflwynir hefyd Cynllun Teithio Gwyrdd a fydd yn cynnwys nifer o fesurau i ostwng y defnydd o geir, gan gynnwys annog personél y safle i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Hyfforddiant Maes

Bydd datblygu'r Academi Dechnegol Amddiffyn yn golygu bod yn rhaid ehangu'r ardal hyfforddi awyr agored bresennol i gynnwys Maes Hyfforddi newydd tuag at Ddwyrain y safle. Defnyddir y safle hefyd i ddarparu hyfforddiant maes ar gyfer personél.

Ni fydd y maes hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant ffrwydron byw.

Hyfforddiant Awyr Agored a Storfa
Cyfleusterau Chwaraeon
Darpar LliD
CY
Ffordd Eglwys Brewis
Llety I Unigolion
Darpar LliD
Tai Presennol
Hyfforddiant Technegol
Ystafell Fwyta'r Rhengoedd Is
Hyfforddiant Maes
Cyfleusterau Chwaraeon Ychwanegol Posib
Gwersyll Gorllewinol
Parc Busnes Awyrofod
Parc Busnes Awyrofod
Sain Tathan
Llanmaes
Picketston
Llanilltud Fawr
B4265
B4265
Caerdydd
←Pen-y-bont